## CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR

## ARCHWILIO AR Y CYD

**Datganiad o Ddiben**

1 Mae'r cyd-bwyllgor archwilio (y 'Pwyllgor') yn rhan allweddol o drefniadau llywodraethu corfforaethol Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru (y 'Comisiynydd') a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru (y 'Prif Gwnstabl'). Mae'n rhoi ffocws annibynnol a lefel uchel ar ddigonolrwydd y trefniadau llywodraethu, risg a rheolaeth. Mae ei rôl i sicrhau bod sicrwydd digonol ynglŷn â llywodraethu, risg a rheolaeth yn rhoi mwy o hyder i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl bod y trefniadau hynny yn effeithiol.

2 Mae'r Pwyllgor wedi'i alluogi i oruchwylio effeithiolrwydd fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, eu hadroddiadau ariannol a'u hadroddiadau llywodraethu blynyddol ac i'w hadolygu'n annibynnol, ac mae'n ofynnol iddo wneud hynny, er mwyn helpu i sicrhau bod trefniadau digonol ar waith o ran her fewnol ac atebolrwydd cyhoeddus.

3 Bydd y cylch gorchwyl hwn yn crynhoi swyddogaethau craidd y Pwyllgor mewn perthynas â'r Comisiynydd a'i swyddfa (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu) a Heddlu De Cymru (yr heddlu) ac yn disgrifio'r protocolau sydd ar waith i alluogi'r Pwyllgor i weithredu mewn ffordd annibynnol, gadarn ac effeithiol.

**Llywodraethu, risg a rheolaeth**

Bydd y Pwyllgor yn rhoi cyngor ac argymhellion i'r Comisiynydd a/neu'r Prif Gwnstabl mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

4 Adolygu'r trefniadau llywodraethu corfforaethol yn erbyn y fframwaith llywodraethu da, gan gynnwys y fframwaith moesegol ac ystyried y cod llywodraethu lleol.

5 Ystyried trefniadau Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r heddlu i sicrhau gwerth am arian ac adolygu sicrwydd a roddwyd ac asesiadau o effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

6 Ystyried yr adroddiadau ar effeithiolrwydd trefniadau rheoli ariannol, gan gynnwys cydymffurfio â Chod Rheoli Ariannol CIPFA.

7 Monitro'r broses o ddatblygu a gweithredu trefniadau rheoli risg yn effeithiol yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r heddlu a monitro cynnydd o ran ymdrin â materion sy'n ymwneud â risg a gyflwynir i'r Pwyllgor.

8 Ystyried adroddiadau ar effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a monitro'r broses o roi camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar waith.

9 Adolygu'r asesiad o risgiau o dwyll a niwed posibl i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r heddlu oherwydd twyll a llygredd.

10. Monitro'r strategaeth, y camau gweithredu a'r adnoddau i atal twyll.

11 Adolygu'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd ar gyfer partneriaethau a chydweithrediadau pwysig.

**Adroddiadau Llywodraethu**

12 Adolygu'r datganiad llywodraethu blynyddol cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, ac ystyried a yw'n adlewyrchu'r amgylchedd risg a'r sicrwydd ategol yn briodol, gan gynnwys barn flynyddol y pennaeth archwilio mewnol.

13. Ystyried a yw'r gwerthusiad blynyddol o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn dod i gasgliad teg bod y trefniadau llywodraethu yn addas at y diben, gan helpu i gyflawni amcanion Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r heddlu.

**Adroddiadau ariannol**

14 Monitro'r trefniadau a'r paratoadau ar gyfer adroddiadau ariannol er mwyn sicrhau bod modd bodloni gofynion statudol a chyrraedd safonau proffesiynol.

15 Adolygu'r datganiad o gyfrifon blynyddol. Yn benodol, ystyried a yw polisïau cyfrifyddu priodol wedi'u dilyn ac a yw'r datganiadau ariannol neu'r archwiliad o'r datganiadau ariannol yn codi unrhyw bryderon y mae angen eu dwyn i sylw'r Comisiynydd a/neu'r Prif Gwnstabl.

16 Ystyried adroddiad yr archwilydd allanol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar faterion sy'n codi o ganlyniad i archwilio'r cyfrifon.

**Trefniadau ar gyfer archwilio a sicrwydd:**

Ystyried fframweithiau sicrwydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r heddlu a sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'u risgiau a'u blaenoriaethau yn ddigonol:

**Archwilwyr mewnol**

Bydd y Pwyllgor yn rhoi cyngor ac argymhellion i'r Comisiynydd a/neu'r Prif Gwnstabl mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

17 Argymell y siarter archwilio mewnol i'w chymeradwyo.

18 Adolygu cynigion a wneir mewn perthynas â darparu gwasanaethau archwilio mewnol, gan gynnwys penodi darparwyr allanol gwasanaethau Archwilio Mewnol a gwneud argymhellion.

19 Adolygu'r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg, gan gynnwys gofynion o ran adnoddau archwilio mewnol, sut y defnyddir ffynonellau eraill o sicrwydd ac unrhyw waith sydd ei angen er mwyn gallu dibynnu ar y ffynonellau eraill hynny. Ystyried unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg a gofynion o ran adnoddau.

20. Gwneud ymholiadau priodol i'r rheolwyr a'r pennaeth archwilio mewnol er mwyn canfod a oes unrhyw gwmpas amhriodol neu gyfyngiadau ar adnoddau. At y dibenion hyn, bydd y pennaeth archwilio mewnol yn brif weithredwr archwilio ac yn uwch-reolwr dynodedig darparwyr y gwasanaeth archwilio mewnol a fydd yn cyflawni'r rôl honno yn unol â darpariaethau'r Datganiad CIPFA ar rôl y pennaeth archwilio mewnol mewn sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus (2019).

21. Ystyried adroddiadau gan y pennaeth archwilio mewnol ar berfformiad archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys perfformiad unrhyw ddarparwyr allanol gwasanaethau archwilio mewnol. Bydd y rhain yn cynnwys: –

- diweddariadau ar y gwaith archwilio mewnol, gan gynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n achos pryder a chamau gweithredu sydd i'w cymryd o ganlyniad i waith archwilio mewnol.
- adroddiadau rheolaidd ar ganlyniadau'r rhaglen Asesu Ansawdd Mewnol (IQA) sy'n ofynnol o dan Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) IAS 12.1.
- adroddiadau ar achosion pan na fydd y swyddogaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â GIAS a'r nodyn cymhwyso ategol ar gyfer Sector Cyhoeddus y DU, gan ystyried a yw'r achos o ddiffyg cydymffurfiaeth yn ddigon arwyddocaol fel bod yn rhaid ei gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

22 Ystyried adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol, gan gynnwys:

- y datganiad am lefel y gydymffurfiaeth â GIAS (sy'n ofynnol o dan GIAS 4.1) a'r Nodyn Cymhwyso ategol ar gyfer Sector Cyhoeddus y DU a chanlyniadau'r Asesiad Ansawdd Mewnol sy'n ategu'r datganiad – bydd y rhain yn nodi dibynadwyedd casgliadau archwilio mewnol.
- y farn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, ynghyd â'r crynodeb o'r gwaith sy'n ategu'r farn (bydd y rhain o gymorth i'r Pwyllgor wrth adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol).

23 Ystyried yr holl adroddiadau archwilio mewnol, gan gynnwys materion a godwyd neu argymhellion a wnaed gan y gwasanaeth archwilio mewnol, ymateb rheolwyr a chynnydd o ran y camau gweithredu y cytunwyd arnynt.

24 Cael adroddiadau sy'n amlinellu'r camau gweithredu a gymerwyd pan fydd y pennaeth archwilio mewnol wedi dod i'r casgliad bod rheolwyr wedi derbyn lefel o risg a all fod yn annerbyniol i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu neu'r heddlu, neu pan fydd pryderon ynglŷn â'r cynnydd a wnaed i gymryd y camau gweithredu y cytunwyd arnynt.

25 Cyfrannu at y rhaglen sicrhau ansawdd a gwella ac yn benodol at yr asesiad ansawdd allanol o archwilio mewnol sy'n digwydd o leiaf unwaith bob pum mlynedd, ac ystyried a yw'r gwasanaeth archwilio mewnol yn rhoi gwerth am arian

26 Ystyried adroddiad ar effeithiolrwydd archwilio mewnol i gefnogi'r datganiad llywodraethu blynyddol, pan fo angen gwneud hynny o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, a fydd yn rhagflaenu adroddiad blynyddol y Pwyllgor a grybwyllir isod.

27 Ystyried unrhyw amhariadau ar annibyniaeth neu wrthrychedd y pennaeth archwilio mewnol sy'n codi o rolau neu gyfrifoldebau ychwanegol y tu allan i archwilio mewnol. Gwneud argymhellion ar fesurau diogelwch i gyfyngu ar amhariadau o'r fath ac, o bryd i'w gilydd, adolygu'r ffordd y maent yn cael eu gweithredu.

**Archwilio Allanol**

Bydd y Pwyllgor yn rhoi cyngor ac argymhellion i'r Comisiynydd a/neu'r Prif Gwnstabl mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

28 Cefnogi annibyniaeth archwilio allanol drwy ystyried asesiad blynyddol yr archwilydd allanol o'i annibyniaeth.

29 Gwneud sylwadau ar gwmpas a dyfnder gwaith archwilio allanol a sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am

arian.

30 Ystyried llythyr blynyddol yr archwilydd allanol, adroddiadau perthnasol a'r adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

31 Cynghori ar waith ychwanegol a gomisiynir oddi wrth archwilwyr allanol.

32 Rhoi cyngor ac argymhellion mewn perthynas ag effeithiolrwydd cydberthnasau rhwng y gwasanaeth archwilio mewnol ac allanol ac asiantaethau neu gyrff arolygu perthnasol eraill.

33 Rhoi mynediad rhydd a dirwystr at gadeirydd y Pwyllgor i'r archwilwyr, gan gynnwys y cyfle i gyfarfod â'r Pwyllgor yn breifat.

**Trefniadau atebolrwydd**

Bydd y Pwyllgor yn gwneud y canlynol:

34 Rhoi adroddiad yn rheolaidd i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar berfformiad y Pwyllgor mewn perthynas â chylch gorchwyl ac effeithiolrwydd y Pwyllgor, ac adolygu'n ffurfiol ei berfformiad yn erbyn ei gylch gorchwyl a'i amcanion yn flynyddol a rhoi adroddiad ar ganlyniadau'r adolygiad hwn i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl.

35 Rhoi adroddiad i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar ei ganfyddiadau, ei gasgliadau a'i argymhellion mewn perthynas â digonolrwydd ac effeithiolrwydd eu fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, eu trefniadau adrodd ariannol, a'u swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol.

36 Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar waith y Pwyllgor, gan gynnwys casgliad ynglŷn â'r gydymffurfiaeth â Datganiad Sefyllfa CIPFA. Bydd yr aelodau annibynnol yn rhoi adroddiad blynyddol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl sydd wedi'i amseru i helpu i baratoi'n derfynol y cyfrifon a'r datganiad rheolaeth fewnol, sy'n crynhoi ei gasgliadau o waith pwyllgor a wnaed yn ystod y flwyddyn ragflaenol.

**Aelodaeth**

37. Ystyr y term 'aelodau annibynnol' fydd y cyfryw bersonau nad ydynt wedi'u cyflogi gan y Comisiynydd na'r Prif Gwnstabl.

38 Bydd yr hawl i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn cael ei hestyn i'r personél canlynol o leiaf:

a. Prif Swyddog Ariannol (Trysorydd) Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
b. Prif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl
c. Prif Weithredwr Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
d. Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol ar y Cyd
e. Cynrychiolydd o adran Gwasanaethau Corfforaethol yr heddlu
f. Cynrychiolydd Archwilydd Mewnol yr Heddlu
g. Cynrychiolydd o Archwilio Cymru

39 Bydd y Pwyllgor yn cynnwys o leiaf bum aelod annibynnol a benodir gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Bydd gan y Pwyllgor Gadeirydd ac Is-gadeirydd, gydag o leiaf dri aelod annibynnol arall, y mae'n rhaid i bob un ohonynt fod yn annibynnol ar y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a Phanel yr Heddlu a Throseddu. Bydd y Cadeirydd, a'r Is-gadeirydd, yn cael eu penodi gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Nodir manylion yr aelodau presennol yn Atodlen 3.

40 Bydd y Pwyllgor yn cael ei gynorthwyo gan ysgrifenyddiaeth a ddarperir gan y Comisiynydd.

41 Ar gyfer pob cyfarfod, bydd y Pwyllgor yn cael y canlynol:

- Adroddiad mewn perthynas â chofrestrau risg/ansicrwydd y sefydliadau
- Adroddiad cynnydd gan yr archwilwyr mewnol yn crynhoi:
    - Y gwaith a gyflawnwyd o gymharu â'r gwaith a gynlluniwyd
    - Materion allweddol sy'n deillio o waith archwilio
    - Ymateb rheolwyr i argymhellion yr archwilwyr
    - Newidiadau i'r cynllun archwilio
    - Unrhyw faterion o ran adnoddau sy'n effeithio ar y broses o gyflawni amcanion archwilio mewnol
- Adroddiad cynnydd gan Archwilio Cymru sy'n crynhoi'r gwaith a gwblhawyd a chanfyddiadau sy'n dod i'r golwg
- Diweddariad ar arolygiadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi
- Y cyfryw adroddiadau diweddaru penodol eraill ag y gall yr Aelodau Annibynnol ofyn amdanynt o bryd i'w gilydd.

42 Bydd gan y rheolwr archwilio mewnol a'r rheolwr o Archwilio Cymru fynediad rhydd a chyfrinachol at Gadeirydd y Pwyllgor a bydd yn cyfarfod â'r Pwyllgor mewn sesiwn gaeedig cyn dechrau pob cyfarfod ffurfiol.

43 Fel y'i crybwyllir ym mharagraffau 39, 58 a 59, bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cael ei benodi ar y cyd gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a bydd yn gwasanaethu am ddau dymor (o bedair blynedd yr un) ar y mwyaf yn y rôl hon fel Cadeirydd – gan dreulio'r cyfryw gyfnod yn y rôl honno ag y caiff y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl gytuno arno o bryd i'w gilydd.

44 Bydd yn ofynnol i Is-gadeirydd gyflenwi os bydd y Cadeirydd yn absennol am ba reswm bynnag. Gall wneud hynny am un cyfarfod fel y'i crybwyllir ym mharagraff 59 neu am gyfnod hwy, yn dibynnu ar absenoldeb y Cadeirydd. Bydd yn rhaid i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl gytuno ar hyn.

**Aelodau Annibynnol**

45 Mae'n rhaid bod o leiaf bum Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor ar unrhyw adeg benodol. Gall aelodau newydd gael eu penodi yn ystod cyfnod presennol yr aelodau eraill sy'n gwasanaethu er mwyn sicrhau parhad busnes.

46 Wrth ddewis unigolion i'w penodi'n Aelodau Annibynnol, bydd aelodau yn cael eu recriwtio er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn meddu ar yr holl sgiliau, gwybodaeth a phrofiad sydd eu hangen i weithredu'r Pwyllgor yn effeithiol a chyflawni ei gylch gorchwyl.

47 Bydd y Pwyllgor yn cadw cofnod o enw a chyfeiriad a dyddiadau penodi, ailbenodi ac ymddeol pob Aelod Annibynnol.

48 Ac eithrio fel y'i crybwyllir yn benodol ym mharagraff 39 ac yn amodol ar y darpariaethau ym mharagraff 50 isod, bydd yr Aelodau Annibynnol yn dal y swydd am dymor o bedair (4) blynedd ac ni fydd eu cyfnod yn y swydd yn fwy na dau dymor olynol. O ran hyn, gall unrhyw Aelod Annibynnol cymwys gael ei ailbenodi am dymor arall o bedair (4) blynedd ar yr amod na fydd yn gwasanaethu am fwy na dau dymor olynol ar y mwyaf.

49. Gellir hefyd gytuno i estyn tymor aelod o'r Pwyllgor am flwyddyn drwy eithriad. Y Comisiynydd a'r

Prif Gwnstabl fyddai'n gwneud y penderfyniad hwn. Dylai'r penderfyniad hefyd gael ei drafod â'r aelodau annibynnol yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor a bydd y cyfryw estyniad i dymor wedi'i gyfyngu i flwyddyn.

50 Bydd pob Aelod Annibynnol yn cael arfarniad blynyddol, a bydd y canlyniadau yn llywio rhaglen datblygu aelodau (gweler paragraff 51 isod). Bydd unrhyw ailbenodiad yn amodol ar arfarniadau blynyddol boddhaol yn ystod tymor y penodiad.

51 Bydd disgwyl i Aelodau Annibynnol gael hyfforddiant a datblygu eu sgiliau fel rhan o raglen datblygu aelodau. Caiff anghenion hyfforddiant eu hystyried yn ystod y broses arfarnu flynyddol.

52 Bydd cyfnod Aelod Annibynnol yn ei swydd yn dod i ben:

(i) os bydd yn absennol o'r holl gyfarfodydd a gynhelir o fewn cyfnod o ddeuddeg mis a bod yr Aelodau Annibynnol yn penderfynu y dylai adael ei swydd; neu

(ii) os bydd yn hysbysu'r Pwyllgor yn ysgrifenedig ei fod yn dymuno ymddiswyddo (ond dim ond os bydd digon o Aelodau Annibynnol yn eu swydd pan ddaw'r hysbysiad ymddiswyddo i rym er mwyn ffurfio cworwm ar gyfer cyfarfodydd).

53 Os bydd swydd wag yn codi, rhaid i'r Aelodau Annibynnol nodi hynny yng nghofnodion eu cyfarfod nesaf.

**Cyfarfodydd**

54 Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn ffurfiol o leiaf deirgwaith y flwyddyn. Gellir trefnu cyfarfodydd ychwanegol os tybir y bydd angen gwneud hynny, ac os gofynnir am hynny gan y Comisiynydd a/neu'r Prif Gwnstabl.

55 Gall cyfarfodydd (os cytunir felly) fod ar y cyfryw ffurf, gan gynnwys fideogynadledda, ag y penderfyna'r Aelodau Annibynnol ar yr amod bod y ffurf a ddewisir yn ei gwneud yn bosibl i'r Aelodau Annibynnol weld a chlywed ei gilydd.

56 Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw swyddogion eraill o'r sefydliad fynychu er mwyn ei helpu i drafod unrhyw fater penodol. Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd cyfarfodydd a chydweithredu, bydd Aelodau Annibynnol yn cyflwyno unrhyw ymholiadau pwysig sydd ganddynt ynglŷn â'r papurau sydd i'w trafod mewn cyfarfod o'r Pwyllgor i'r rhag-gyfarfod a gynhelir rhwng y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Cyllid cyn y cyfarfod. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod modd paratoi ymateb ffurfiol cywir ac ystyriol gan yr arbenigwr pwnc perthnasol. Bydd agenda derfynol y cyfarfod yn cael ei chyflwyno i'r Cadeirydd ddeng diwrnod gwaith cyn cyfarfod(ydd) y Pwyllgor. Caiff papurau eu cyflwyno i'r Pwyllgor erbyn 5pm, bum diwrnod gwaith ar ôl dosbarthu'r agenda derfynol. Bydd adroddiadau brys neu adroddiadau hwyr yn cael eu cymeradwyo gan y Prif Swyddog Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, cyn eu cynnwys i'w hystyried gan y Pwyllgor. Gall y Pwyllgor hefyd, gyda rhybudd a chytundeb ymlaen llaw, gytuno i arsylwyr fynychu rhai o'i gyfarfodydd neu ran o'i gyfarfodydd os yw'n briodol ac yn berthnasol.

57 Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw un neu bob un o'r rhai sy'n bresennol fel arfer ond nad ydynt yn aelodau i dynnu'n ôl er mwyn hwyluso trafodaeth agored a gonest am faterion penodol.

**Cadeirydd**

58 Bydd y person(au) a benodir yn Gadeirydd yn unol â pharagraff 39 uchod bob amser yn gymwys i gael ei (h)ailethol, yn amodol bob amser ar y darpariaethau eraill a nodir yma.

59 Os na fydd y Cadeirydd yn bresennol o fewn ugain munud ar ôl yr amser a benodwyd ar gyfer cynnal cyfarfod, neu os bydd y cyfryw berson ag a benodir yn Gadeirydd wedi peidio â bod yn Aelod Annibynnol ac nad yw ei (h)olynydd wedi cael ei benodi/phenodi yn unol â Chymal 39 – bydd y cyfarfod yn cael ei gadeirio gan yr Is-gadeirydd neu mae'n rhaid i'r Aelodau Annibynnol sy'n bresennol ddewis un o'u plith i gadeirio'r cyfarfod hwnnw.

**Cworwm ac argymhellion**

60 Yn amodol ar y darpariaethau canlynol, ni fydd unrhyw fusnes yn cael ei gynnal yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor oni bai bod o leiaf hanner cyfanswm nifer yr Aelodau Annibynnol ar y pryd, neu dri Aelod Annibynnol (pa un bynnag sydd fwyaf) yn bresennol drwy gydol y cyfarfod.

61 Mewn cyfarfodydd, y rheol gyffredinol yw y dylai argymhellion ar fater gael eu cefnogi gan y mwyafrif o'r Aelodau Annibynnol sy'n bresennol. Bydd hyn yn golygu pan fydd y mwyafrif o'r Aelodau Annibynnol sy'n bresennol yn cyfleu i'w gilydd drwy unrhyw ddull eu bod yn cydweld ar fater.

62. Bydd y Pwyllgor yn rhoi cofnod o'i gyfarfodydd i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar ffurf cofnodion. Yn y cofnodion, rhaid i'r Aelodau Annibynnol gofnodi eu hargymhellion a, lle y bo'n briodol, y rhesymau dros yr argymhellion hynny.

**Gwrthdaro buddiannau**

63. Bydd yn ofynnol i bob Aelod Annibynnol gofnodi unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau mewn cofrestr o fuddiannau ariannol ac anariannol.

64. Mae'n rhaid i Aelod o'r Pwyllgor hefyd ddatgan unrhyw achos posibl o wrthdaro buddiannau cyn gynted ag y daw yn ymwybodol ohono (a all fod cyn neu yn ystod y cyfarfod). Os bydd gwrthdaro buddiannau, bydd y cyfryw aelod yn ei (h)absenoli ei hun o unrhyw drafodaethau gan y Pwyllgor lle mae'n bosibl y bydd gwrthdaro yn codi rhwng ei (d)ddyletswydd i weithredu er budd y Pwyllgor ac unrhyw fuddiant personol (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i unrhyw fuddiant ariannol personol).

**Cydnabyddiaeth a Threuliau**

65. Ni fydd gan yr Aelodau yr hawl i gael unrhyw gydnabyddiaeth am unrhyw waith na dyletswydd a gyflawnir mewn cysylltiad â'r Pwyllgor ac ni fyddant yn cael cydnabyddaieth o'r fath ac eithrio fel y'i nodir yn Atodlen 2.

**ATODLEN 1: RHESTR O DDYDDIADAU ALLWEDDOL**

| | |
|---|---|
| Ystyried ac argymell y cynllun a'r siarter archwilio mewnol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod | Chwefror |
| Ystyried cynllun archwilio Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod | Chwefror |
| Adolygiad blynyddol o gylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor Archwilio | Chwefror |
| Ystyried ac argymell y Datganiad Llywodraethu Blynyddol | Gorffennaf |
| Ystyried adroddiad blynyddol a barn y Pennaeth Archwilio Mewnol | Gorffennaf |
| Paratoi'r adroddiad blynyddol gan y Cyd-bwyllgor Archwilio | Gorffennaf |
| Cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon Drafft/Archwiliedig y Grŵp | Gorffennaf/ Hydref |
| Ystyried ISA 260 | Hydref |
| Ystyried Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru (Llythyr Rheoli yn flaenorol) ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. | Chwefror |

**ATODLEN 2: CYDNABYDDIAETH**

1. Gall Aelodau Annibynnol gynnwys amser rhesymol i baratoi cyn cyfarfodydd yn eu hawliadau:
    - Ar gyfer cyfarfod ffurfiol a fydd yn para am ddiwrnod llawn, bydd Aelodau Annibynnol yn gymwys i hawlio 4 awr o amser paratoi.
    - Ar gyfer cyfarfod ffurfiol a fydd yn para hyd at 4 awr: bydd Aelodau Annibynnol yn gymwys i hawlio 2 awr o amser paratoi.
    - Ni fydd angen darllen deunydd na pharatoi cyn cyfarfodydd anffurfiol.

2. Bydd gan yr Aelodau Annibynnol yr hawl i'r taliad(au) canlynol mewn perthynas â phob un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn unol â'r cyfraddau a gyhoeddwyd yn adroddiad blynyddol Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol Cymru (nodir y cyfraddau canlynol yn adroddiad blynyddol 2025 i 2026 y Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol):

| | |
|---|---|
| Cadeirydd | £268 (4 awr a throsodd) |
| | £134 (hyd at 4 awr) |
| Aelodau Annibynnol eraill | |
| | £238 (4 awr a throsodd) |
| | £119 (hyd at 4 awr) |

3. Bydd gan yr Aelodau Annibynnol yr hawl i gael cydnabyddiaeth am dreuliau teithio a pharcio rhesymol yr eir iddynt mewn cysylltiad â dyletswyddau Aelod/ ei rôl ar y Pwyllgor yn gyfan gwbl, yn angenrheidiol ac yn unswydd.

4. Bydd y cyfraddau milltiroedd sy'n gymwys mewn perthynas â theithio i ac o gyfarfodydd y Pwyllgor fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cerbyd Modur: | 45 ceiniog y filltir |
| Trên/Bws: | Gwariant gwirioneddol â derbynneb |
| Beic Modur: | 24 ceiniog y filltir |
| Beic: | 20 ceiniog y filltir |

5. Bydd tystiolaeth ysgrifenedig, derbynebau a/neu anfonebau ar gyfer treuliau y mae gan Aelod yr hawl i'w hadennill yn unol â'r Atodlen 2 hon yn cael eu cyflwyno i'r heddlu o fewn 90 diwrnod ar ôl mynd i draul o'r fath.

**ATODLEN 3: Aelodau Annibynnol**

| **Enw** | **Dyddiad penodi** | **Dyddiad adnewyddu** |
|---|---|---|
| Paul Wood (Cadeirydd) | Mehefin 2021 | Chwefror 2027 |
| Paula O’Connor (Is-gadeirydd) | Mehefin 2021 | Chwefror 2027 |
| Martin Veale | Mehefin 2021 | Mawrth 2027 |
| Jon Wall | Mehefin 2023 | Chwefror 2027 |
| Shahzad Hamid | Gorffennaf 2025 | I'w Gadarnhau |
| Karen Jones | Gorffennaf 2025 | I'w Gadarnhau |